**Teitl y Swydd**: Cynorthwyydd Arlwyo, Gwersyll yr Urdd Caerdydd
**Cyflog**: Cyfraddau Cyflog Byw Cenedlaethol
**Cytundeb**: Oriau Hyblyg
**Cyflogwr**: Just Perfect Catering Cyf.
**Dyddiad cau**: 28 Chwefror 2019

Mae Just Perfect Catering (Cyfyngedig) yn edrych am unigolyn gweithgar a chydwybodol i ymuno a'r tîm yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd, Bae Caerdydd. Mae'r Gwersyll yn ganolfan breswyl a chynadleddau prysur sy'n croesawu hyd at 12,000 o letywyr y flwyddyn.

Yn ddelfrydol bydd yr ymgeisydd yn berson proffesiynol gydag agwedd bositif at waith a bydd yn meddu ar sgiliau gofal cwsmeriaid o'r radd flaenaf. Mae cyfle i ddechrau gweithio ar unwaith ac er y byddai profiad blaenorol yn ddelfrydol nid yw'n hanfodol gan y bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu.
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

Bydd y swydd yn gofyn i chi weithio patrwm shifft, yn cynnwys penwythnosau. Gall hwn gynnwys shifftiau adeg brecwast neu swper. O dro i dro bydd cyfle i chi weithio yn un o'n safleoedd eraill Just Perfect Catering (Cyfyngedig) fel bo'r angen.

Bydd dyletswyddau'n cynnwys:
- Gweini brecwast a swper i'n lletywyr
- Ailgyflenwi diodydd, bar salad & bwyd poeth fel bo angen

- Sicrhau fod platiau, cyllyll a ffyrc a sawsiau digonol ar gael
- Cynorthwyo gydag unrhyw archebion lletygarwch
- Cynorthwyo i baratoi pecynnau bwyd ar gyfer lletywyr
- Glanhau a thacluso'r ystafell fwyta cyn ac ar ôl gweini bwyd
- Cynorthwyo tîm y gegin i gynnal safon glendid

Os ydych yn credu eich bod yn berson trwsiadus, yn berson cwrtais ac yn gyfeillgar, yn brydlon ac yn ddibynadwy yna mae croeso i chi ein e-bostio i fynegi eich diddordeb gyda chopi o'ch CV at: llinosh@urdd.org

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyflogedig gan Just Perfect Catering (Cyfyngedig) sy'n gyfrifol am gontract arlwyo Gwersyll yr Urdd Caerdydd.